



UNED 8 – arddodiaid cyfansawdd

Gramadeg

Mae llawer o **arddodiaid** (*prepositions*) yn y Gymraeg. Weithiau mae arddodiaid yn dod mewn dwy ran, a rydyn ni'n galw rhain yn **arddodiaid cyfansawdd** (*compound prepositions*).

Dyma'r rhain fydd yn yr uned hon :

ar ôl	o flaen	ar bwys	o amgylch
ar fy ôl i	o fy mlaen i	ar fy mhwys i	o fy amgylch i
ar dy ôl di	o dy flaen di	ar dy bwys di	o dy amgylch di
ar ei ôl e	o'i flaen e	ar ei bwys e	o'i amgylch e
ar ei hôl hi	o'i blaen hi	ar ei phwys hi	o'i hamgylch chi
ar ein hôl ni	o'n blaen ni	ar ein pwys ni	o'n hamgylch ni
ar eich ôl chi	o'ch blaen chi	ar eich pwys chi	o'ch hamgylch chi
ar eu hôl nhw	o'u blaen nhw	ar eu pwys nhw	o'u hamgylch nhw

ar ôl - *after*

o flaen - *in front of*

ar bwys - *nearby, close to*

o amgylch - *around*

ar ôl

ar fy ôl i

after me

ar dy ôl di

after you

ar ei ôl e

after him

ar ei hôl hi

after her

ar ein hôl ni

after us

ar eich ôl chi

after you

ar eu hôl nhw

after them

o flaen

o fy mlaen i

before me

o dy flaen di

in front of you

o'i flaen e

before him

o'i blaen hi

in front of her

o'n blaen ni

before us

o'ch blaen chi

in front of you

o'u blaen nhw

before them



Pryd cyrhaeddodd pawb y gwaith?

Parwch y person a'r amser gyda'r llun cywir :

1. Twm 7:30	2. Catrin 7:35	3. Geraint, Gwen a Gwyn 7:45	4. Nia 8:00
5. Huw 8:05	6. Mari 8:15	7. Gareth a Llinos 8:30	8. Dafydd 8:35
9. Alwen ac Alys 8:45	10. Meira 9:00	11. Rhian a Rhys 9:15	12. Aled 9:30





Darllenwch y sgwrs yma, yna ail-ysgrifennwch y sgwrs gydag enwau ac amserau gwahanol :

A: Pryd cyrhaeddaist ti'r gwaith?

B: Cyrhaeddais i am (amser rhwng 7:45 a 9:30)

A: Gyrhaeddaist ti o flaen Mari?

B: Do, cyrhaeddais i o'i blaen hi.

A: Gyrhaeddaist ti o flaen Huw a Gwyn?

B: Naddo, cyrhaeddais i ar eu hól nhw.... ac ati.

Sgwrs newydd :

Yn y dre

Edrychwch ar y map ar y dudalen nesaf.
Mae un llythyren ar goll (*missing*) ym mhob enw lle.
Allwch chi lenwi'r bwlch (*fill the gap*)?



1. Y ff_rdd _sg_i
2. _r _sb_t_
3. Yr ys_ol _yfun
4. Y Ga_olfa_ hamdde_
5. Y gylch_an _awr
6. Y goleu_d_u tr_ffig
7. Y_ a_chfa_chnad
8. _r _sgol g_nradd
9. S_op y c_gydd
10. Y _il_eddyg_a
11. Y _iop by_god a _glodion
12. Y _yfrge_
13. Yr egl_ys
14. Y _osg
15. Y ba_c
16. Y d_f_rn
17. Y p_zzer_a
18. Y _afle bw_
19. Y ca_el
20. _ fedd_gfa
21. Y gyl_fan fa_
22. Y_ o_saf d_enau



Cyfarwyddiadau

Dechreuwch wrth y banc. Trowch i'r dde. Trowch i'r dde eto ar y gyffordd. Cerddwch at y groesffordd ac mae'r adeilad ar y chwith. Ble dych chi?

Ateb : _____

Ewch o'i hamgylch hi

Go around it

Sut basech chi'n dweud wrth bobl sut i fynd o gwmpas y pethau hyn?

Dilynwch y patrwm:

Mae ysgol yn y ffordd.
Mae cangen fawr yn y ffordd.
Mae llyn mawr yn y ffordd.
Mae injan dañ yn y ffordd.
Mae dwy goeden yn y ffordd.
Mae adeilad mawr yn y ffordd.
Mae defaid yn y ffordd.
Mae dau ambiwlans yn y ffordd.

Ewch o'i hamgylch hi.



Ymarfer Gwrando

Sgwrs



Gwrandewch ar y sgwrs yma a llenwch y bylchau :

1. Esgusodwch fi, dw i'n ceisio dod o hyd i'r ysbyty. Mae apwyntiad gyda fi yn yr adran gleifion allanol am dri o'r gloch.
2. Tri o'r gloch! Mae tipyn o bellter rhwng fan hyn a'r ysbyty. A, dyna ambiwlans! ar ei ol e! O... mae e wedi mynd....
1. Dw i'n anghofio cyfarwyddiadau. Dych chi'n gallu meddwl am ffordd hawdd?
2. Wel, ... a' mynd drwy ganol y dre, dych chi'n siw'r o fynd ar goll. Reit, dych chi'n gweld y gylchfan o'ch blaen chi yma?
1. Ydw.
2. o'i chwmpas hi, ... y trydydd tro, a i'r chwith wrth y dafarn. Bydd y banc ar eich ochr chwith chi, ... drwy'r goleuadau traffig at y mosg.
1. At y mosg, o'r gorau.
2. i'r dde, ... yn syth rhwng yr ysgol gynradd a siop y cigydd, a bydd yr ysbyty o'ch blaen chi.
1. Diolch yn fawr
- 2: Dych chi'n gyrru?
- 1: Nac ydw, dw i newydd gael trên i'r orsaf yma! A dw i'n cael llawdriniaeth ar fy nhroed yfory, mae bysedd fy nhroed chwith wedi torri.
2. Gwell i chi gael tacsï felly!
- 1: Diolch, gwnaf i.

Atebwch y cwestiynau:

1. Ble mae'r dyn angen mynd?
2. Pam?
3. Beth sy ar ol y goleuadau traffig?
4. Sut mae e'n mynd i gyrraedd pen y daith?



Newydd

Yn y ddeialog, dych chi'n gweld **Dw i newydd gael trên.**

Dysgwch y patrwm:

Dw i newydd orffen.

I've just finished.

Dw i newydd gyrraedd.

I've just arrived.

Dw i newydd glywed.

I've just heard.

Dw i newydd adael.

I've just left.

Mae'r cyfarfod newydd ddechrau.

The meeting has just started.

Mae'r cyfarfod newydd orffen.

The meeting has just finished.

Mae'r bws newydd gyrraedd.

The bus has just arrived.

Mae'r bws newydd adael.

The bus has just left.

Cyfieithwch

I've just bought a new car.

The film has just finished.

They have just arrived.

We've just had an idea.

Has the meeting just started?

They have just found the key.